**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1353
Ein cyf/Our ref LW/01412/23

Jack Sargeant MS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

31 Awst 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf yn amgáu P-06-1353 – Datganoli cyfrifoldebau a chyllidebau ar gyfer cefnffyrdd yng Ngogledd Cymru i Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru gan Askar Sheibani.

Ers datganoli ym 1999, Gweinidogion Cymru sydd wedi bod yn gyfrifol am y rhwydwaith ffyrdd strategol (SRN) yng Nghymru ac yn ôl y gyfraith, dyma'r awdurdod priffyrdd. Nid yw natur strategol yr ased hwn yn lleol a rhaid iddo adlewyrchu gofynion Cymru gyfan a sicrhau bod polisi Llywodraeth Cymru, megis Strategaeth drafnidiaeth Cymru (WTS) yn cael ei defnyddio i bob agwedd o'i reoli.

Roedd y ffyrdd hyn yn ffurfio'r hyn a alwodd Deddf Cefnffyrdd 1946 yn "system genedlaethol o lwybrau ar gyfer traffig trwodd". Felly, mae'r gefnffordd yn cymryd rôl wahanol o fewn ardaloedd awdurdodau lleol o'i gymharu â'r rhwydwaith ffyrdd lleol h.y. mae'r gefnffordd ar y cyfan yn darparu ar gyfer llawer iawn o draffig trwodd gyda'r ffyrdd lleol yn dosbarthu'r traffig lleol i fusnesau, cymunedau lleol a chefnogi'r economi leol. Pan fydd cefnffordd wedi'i gwella gan draffordd, ffordd osgoi neu lwybr tebyg, gellir ei hisraddio. Caiff y rhain eu hisraddio fel arfer i'r awdurdod lleol eu rheoli gyda llawer llai o draffig ar y llwybr hwnnw o ganlyniad i'r gwelliant a wnaed ac yn aml daw yn fwy o ffordd ddosbarthu.

Ni fyddai newid cyfrifoldeb cefnffyrdd i'r awdurdod lleol yn dasg hawdd, yn enwedig gyda'r ddeddfwriaeth a'r pwerau amrywiol sydd ar waith i Lywodraeth Cymru. Ar ben hynny, byddai'n arwain at farn ddigyswllt ar y ffordd y mae'r system genedlaethol o lwybrau yn gweithredu ledled Cymru. Nodwyd hyn pan gafodd y rhwydwaith cefnffyrdd ei reoli'n wreiddiol gan awdurdodau lleol ar ran Llywodraeth Cymru flynyddoedd maith yn ôl. Arweiniodd hyn at aneffeithlonrwydd a chynnydd mewn costau gyda'r nifer uchel o adnoddau oedd eu hangen i weithredu a chynnal y cefnffyrdd bob blwyddyn. Nid yw'r adnodd hwn bellach yn bodoli o fewn awdurdodau lleol i reoli'r gwahanol asedau'n effeithiol. Dyna pam dros y blynyddoedd, rydym wedi adolygu'r gwaith o reoli'r SRN drwy ein hasiantau ac wedi lleihau'r rhain i ddau asiant sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru heddiw, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd De Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r trefniant rheoli hwn yr un fath â rhannau eraill o'r DU lle mae gweinyddiaethau datganoledig yn rheoli'r Cefnffyrdd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yr eithriad yw y Priffyrdd Cenedlaethol sy'n rheoli'r rhwydwaith cefnffyrdd yn Lloegr.

Mae manteision gyda'r model hwn o'r SRN yn cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru pan ddaw i flaenoriaethu prosiectau sy'n helpu i gefnogi'r amgylchedd, yr economi ac i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.

Hefyd, creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fframwaith ar gyfer dull cyson o gydweithredu rhanbarthol rhwng llywodraeth leol, sef Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJCs). Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol drwy Reoliadau. Mae'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd (RTPs) yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gan y gwahanol Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn dilyn cyhoeddi ein Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol: canllawiau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig | LLYW.CYMRU. Bydd y Cynlluniau Cludiant.

Rhanbarthol a'r Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDPs) cysylltiedig yn nodi'r polisïau, y rhaglenni a'r prosiectau i gyflawni'r WTS yn y rhanbarth dros gyfnod o bum mlynedd rhwng 2025 a 2030.

Yn unol â'r canllawiau hyn, rhaid iddynt gyd-fynd â'r Cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth sy'n nodi polisïau, rhaglenni a phrosiectau Llywodraeth Cymru i gyflawni gweledigaeth, uchelgeisiau a blaenoriaethau WTS ledled Cymru dros gyfnod o bum mlynedd. Mae hyn yn cynnwys prosiectau SRN. O ystyried y cylchoedd cyhoeddi sy'n gorgyffwrdd, disgwylir y bydd RTPs yn llywio fersiynau dilynol o'r NTDP. Disgwylir i'r NTDP presennol gael ei ddiwygio yn 2027 a bydd yn cynnwys cyfranogiad ac ymgynghoriad gan yr holl randdeiliaid.

Ar ben hynny, mae cynllunio a dylunio cynlluniau bob amser yn cynnwys ymgynghori â'r cymunedau a'r busnesau lleol. Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud hyn, a Chanllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yw ein mecanwaith.

Mae blaenoriaethu cyllid hefyd yn broses deg a chyfartal wedi'i lledaenu cyn belled ag y bo modd ac yn gyfartal ledled Cymru. Mae sicrhau bod SRN Cymru yn cael ei ddiweddaru i gyflawni amcanion statudol a pholisi yn ganolbwynt i'r WTS, ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo cynlluniau yn y NTDP sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth a pholisi.

O ran datblygu'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cydbwyllgorau Corfforedig nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i adolygu rheolaeth y rhwydwaith cefnffyrdd/ffyrdd strategol ar gyfer Cymru.

Rydym wedi gofyn i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru gynghori ac argymell atebion ar gyfer system drafnidiaeth well yng ngogledd Cymru. Fe gyhoeddwyd eu hadroddiad interim ym mis Mehefin Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru: Adroddiad Interim Mehefin 2023 | LLYW.CYMRU. Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad terfynol ac argymhellion y Comisiwn yn ddiweddarach eleni ac yn dilyn hyn, byddaf yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd